# Memorandwm Esboniadol

## Teitl arfaethedig y Bil

Bil Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol (Cymru)[1]

## Amcan(ion) polisi arfaethedig y Bil

**Diben y Bil yw diogelu enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru.**[2]

Bydd y Bil hwn yn sicrhau na chaiff elfen allweddol o'n treftadaeth genedlaethol ei cholli. Mae ei amcan polisi yn cynnwys yr enwau hynny sydd â:

- chysylltiad â thopograffeg/lle, ac sy'n adlewyrchu topograffeg/lle;
- cysylltiad â pherson(au) hanesyddol neu nodedig;
- cysylltiad â digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. brwydrau) neu gyfnodau (e.e. ymosodiadau) sydd wedi cael effaith ar hanes cymdeithasol-ddiwylliannol ac economaidd Cymru;
- cysylltiad â hanes diwylliannol lleoliad (e.e. cysylltiadau â thraddodiadau, diwydiant, chwedlau).

Mae'n amlwg bod angen cofrestr ddibynadwy ac awdurdodol o enwau lleoedd hanesyddol Cymru a fydd yn darparu'r sail ar gyfer unrhyw fesur diogelu neu hyrwyddo deddfwriaethol.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i "lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru", ac felly byddai'n bragmatig defnyddio'r Ddeddf hon fel sail ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes.

---

[1]Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod y teitl arfaethedig hwn yn gyson â'r hyn a ddarparwyd yn y wybodaeth a gyflwynwyd gennyf cyn y balot. Mae wedi ei addasu rhywfaint i'w gwneud yn gliriach y bydd y Bil yn diogelu pob enw lle hanesyddol, boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu unrhyw iaith arall.

[2]Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod yr amcan polisi hwn yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth a gwyflwynwyd gennyf cyn y balot. Mae'r wybodaeth ychwanegol o dan 'Amcanion Polisi'r Bil' (o gymharu â'r wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot) wedi ei darparu er mwyn nodi'n gliriach i'r Aelodau beth yw fy syniadau ynghylch sut y gellir cyflawni'r amcan polisi.

*Math o enw:*

Cynigir y bydd y Bil yn ceisio diogelu enwau lleoedd hanesyddol gan gynnwys tai a ffermydd, caeau, nodweddion naturiol, tirweddau a ddyluniwyd a'r amgylchedd hanesyddol ac archeolegol.

Bydd y Bil yn mynd ati i ddiogelu enwau lleoedd (boed yn Gymraeg, yn Saesneg neu unrhyw iaith arall).

*Math o newid enw:*

Cynigir y bydd y Bil yn cwmpasu newid enw yn llwyr, newid enw yn rhannol, newid sillafiad ac ychwanegu enw Cymraeg neu Saesneg at yr enw safonol neu swyddogol.

*Math o ddyletswydd:*

Mae amrywiaeth o ffyrdd y gellid diogelu enwau lleoedd hanesyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod perchnogion tir yn ymwybodol o arwyddocâd hanesyddol eu henwau lleoedd;
- cyflwyno gofyniad i berchnogion tir neu gyrff cyhoeddus ymgynghori â chorff cyhoeddus penodol (neu gyrff cyhoeddus penodol) pan fyddant yn newid enw lle hanesyddol;
- cyflwyno cyfundrefn ganiatâd wrth fynd ati i newid enw lle hanesyddol;
- cyflwyno gwaharddiad cyffredinol ar newid enwau lleoedd hanesyddol;
- ei gwneud yn ofynnol i berchnogion tir neu gyrff cyhoeddus ddefnyddio enwau lleoedd hanesyddol wrth baratoi gwybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd;
- cyfuniad o'r opsiynau gwahanol uchod, gan ddibynnu o bosibl ar y math o enw neu sefyllfa lle y gallai enw gael ei newid.

Ar ôl penderfynu, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, ar yr opsiwn/opsiynau mwyaf priodol er mwyn cyflawni amcan polisi'r Bil, byddai'r Bil yn mabwysiadu trefn orfodi gymesur, yn dilyn ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid.

__Manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd ar gyfer y Bil, gan gynnwys manylion unrhyw waith ymgynghori a wnaed__

Yn dilyn y bleidlais ar 25 Ionawr 2017, mae nifer o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn diogelu enwau lleoedd hanesyddol wedi dangos eu diddordeb a'u cefnogaeth ar gyfer egwyddor cyffredinol ac amcanion polisi'r Bil.

O ganlyniad, ar 17 Chwefror 2017, cynhaliwyd digwyddiad i randdeiliaid, gyda'r bwriad o ddod â phartïon sydd â diddordeb at ei gilydd i drafod cwmpas y Bil, yr opsiynau o ran fframweithiau deddfwriaethol a chostau posibl y Bil. Daeth cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol i'r digwyddiad:

- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;
- Arolwg Ordnans;
- Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru;
- Prifysgol Caerdydd;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg;
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Roedd nifer o unigolion sydd â diddordeb personol neu broffesiynol yn y gwaith o ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol yn bresennol hefyd.

Cafwyd datganiadau ysgrifenedig o ddiddordeb hefyd gan gynrychiolwyr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd a Mynyddoedd Pawb, a oedd yn methu dod i'r digwyddiad i randdeiliaid.

Mae cefnogaeth i amcanion polisi’r Bil wedi ei dderbyn wrth Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Mynyddoedd Pawb, Comisiynydd y Gymraeg ac amrywiaeth o unigolion, gan gynnwys academyddion ac arbenigwyr yn y maes.

**Asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil**

Mae gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.91A (iv) i gynnal asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil.

Rwyf wrthi'n ystyried ystod o opsiynau o ran sut y bydd y Bil hwn yn cael ei ddatblygu, a daeth i'r amlwg yn ystod y digwyddiad rhanddeiliaid cychwynnol, a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, y bydd cyfle i greu Bil na fyddai'n esgor ar effaith ormodol ond a fyddai'n dal yn driw i egwyddor y bwriad o warchod enwau lleoedd hanesyddol Cymru.

Y prif feysydd a fydd, o bosibl, yn cynnwys cost wrth i'r Bil gael ei gyflwyno fydd:

1. ysgrifennu canllawiau a gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth yn hysbys;
2. sefydlu neu ddilysu rhestr gyfredol o leoedd ac enwau;
3. unrhyw gostau ymgynghori a allai fod yn rhan o system weithredu a sefydlir gan y Bil a/neu gostau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau am gydsynio ag enw lleoedd hanesyddol;
4. gorfodi'r ddeddfwriaeth a chostau apeliadau/tribiwnlys; ac
5. unrhyw ganlyniadau annisgwyl.

1. Llywodraeth Cymru fyddai'n gorfod talu am gostau ysgrifennu canllawiau a hysbysu'r cyhoedd o newidiadau i ddeddfwriaeth. Byddai angen cyfathrebu'r newid statws a'r newidiadau o ran y gofynion sydd ar bobl sy'n berchen ar eiddo neu'r sawl sy'n cael eu heffeithio gan y Bil. Amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil yr Amgylchedd Hanesyddol mai £5,000 fyddai'r gost o roi canllawiau penodol i berchnogion ac Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ddiogelu a rheoli parciau hanesyddol yn 2016-17. Bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar gymhlethdod y canllawiau a nifer y bobl/sefydliadau y byddai angen cysylltu â nhw i'w hysbysu o'r newidiadau i ddeddfwriaeth. Byddwn yn disgwyl i'r costau fod oddeutu'r ffigwr hwn, ond mae'n bosibl y bydd costau cyfathrebu ychwanegol i sicrhau bod pob perchennog eiddo yn ymwybodol o'r gofynion newydd yn y ddeddfwriaeth. Gellir archwilio beth yw'r gost leiaf y gellid disgwyl ei thalu mewn perthynas â hyn trwy ddefnyddio systemau sydd eisoes gan gynghorau lleol a chynghorau cymuned.

2. Tra gallai'r dasg o sefydlu rhestr o enwau a lleoedd fod â chost sylweddol ynghlwm â hi, mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 eisoes yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru greu a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol Cymru.

O ran cynnwys y rhestr hon, mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi:

> *Mae enwau lleoedd hanesyddol yn dystiolaeth werthfawr o ran hanes cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol. Mae enwau aneddiadau, tai a ffermydd, caeau a nodweddion naturiol yn darparu gwybodaeth am arferion amaethyddol y presennol a'r gorffennol, diwydiannau lleol, sut mae'r dirwedd wedi newid a chymunedau'r presennol a'r gorffennol. Maent yn dystiolaeth o ddatblygiad treftadaeth ieithyddol gyfoethog — yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill.*

Ar hyn o bryd, mae gofyniad i gyhoeddi'r rhestr hon a'i diweddaru'n gyson. Byddaf felly yn archwilio pa mor dda mae'r rhestr yn diwallu anghenion y Bil a gaiff ei ddatblygu. Byddai angen golygu ansawdd y wybodaeth ar y rhestr hon, ac ystyried a fyddai angen dilysu'r enwau ar y rhestr, neu gynnal gwaith pellach arnynt. Serch hynny, mae'r ffaith bod rhestr eisoes yn bodoli â chyllid sydd eisoes ar gael i greu'r rhestr yn golygu na fydd y goblygiadau ariannol sy'n deillio o'r Bil mor fawr.

Mae'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hanesyddol a Hynafol wedi rhoi gwybod ei fod ar hyn o bryd yn derbyn cyllid o £60,000 y flwyddyn yn bennaf er mwyn llunio a chynnal y rhestr hon. Byddai rhoi statws uwch i'r rhestr hon yn golygu y byddai'n bosibl bod angen sicrhau bod yr enwau ar y rhestr yn sefydlog ac yn addas at y diben. Byddaf yn ystyried yn ystod cyfnod datblygu'r Bil a ddylid cael gwahanol lefelau o ran diogelu'r enwau sy'n fwy arwyddocaol yn hanesyddol.

Amcangyfrifodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil Treftadaeth y byddai sefydlu rhestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol yn costio £48,400 dros ddwy flynedd. Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth, byddaf yn pwyso a mesur yr angen i leihau'r gost cymaint ag y gellid â'r modd y gellid cyflawni amcanion y Bil hwn.

3. Byddaf yn archwilio'r potensial ar gyfer ystod o opsiynau yn y Bil, o'r gofyniad i ymgynghori â chorff cyhoeddus penodol wrth newid enwau lleoedd hanesyddol (o'r rhestr) hyd at y broses gydsynio.

**Byddai'r gost ar gyfer ymgynghori â chorff cyhoeddus penodol yn eithaf isel, a byddaf yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y cynigion mor gosteffeithiol â phosibl**. Lle bo modd, dylid prosesu hyn ar-lein, gan sicrhau bod pawb a gaiff eu heffeithio yn ymwybodol o unrhyw newid posibl. Dangosodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) y byddai disgwyl i gynghorau cymuned gael y capasiti i gyhoeddi gwybodaeth ar-lein naill ai'n annibynnol neu gyda'i gilydd. Lle bo hyn yn rhan o newid mewn defnydd neu gais cynllunio, efallai y byddaf yn darganfod y gall hyn fod yn rhan o'r broses sydd eisoes yn bodoli.

Gallai'r Bil greu gofyniad ar unigolyn i ofyn am ganiatâd gan awdurdod wrth geisio newid enw unrhyw le sydd â'i enw ar y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol. Efallai mai'r awdurdod cynllunio lleol fydd yr awdurdod dan sylw (fel yw'r achos o ran cydsynio mewn perthynas ag adeiladau rhestredig) neu efallai mai Llywodraeth Cymru fydd yr awdurdod (fel yw'r achos o ran cydsynio mewn perthynas â henebion cofrestredig). Gallai'r broses gydsynio - gan gynnwys y modd y gwneir penderfyniadau a sut i apelio'r penderfyniadau hynny - adlewyrchu dull adeiladau rhestredig neu henebion rhestredig, neu gyfuniad o'r ddau.

Un gwrthwynebiad posibl i'r dull hwn fyddai'r gost o ran prosesu ceisiadau ar gyfer cydsynio enwau lleoedd hanesyddol. Yn ystod Cyfnod Un o graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol, roedd pryder ymhlith yr ymatebwyr fod yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol, a'r sector treftadaeth yn fwy cyffredinol, yn rhwystr i'r gallu i weithredu darpariaethau'r Bil yn effeithiol. Pe dilynir y fath ddull wrth ddatblygu'r Bil hwn, byddwn yn cydweithio'n agos â phartneriaid i sicrhau y dylunnir system effeithlon nad ydyw'n feichus o ran ei weinyddu a'i orfodi.

4. O ran cost y fath apeliadau, byddai cwmpas unrhyw apêl yn fach a phenodol. Efallai y bydd potensial ar gyfer apeliadau cychwynnol o ran a

ddylai eitemau fod ar y rhestr o enwau treftadaeth, yn ogystal ag apeliadau achlysurol yn y dyfodol.

**Rhan bwysig o waith ymchwil i'r maes hwn yw nodi faint o achosion o'r fath sy'n debygol o godi bob blwyddyn.** Bydd cyfraniad gan randdeiliaid yn hanfodol, a lle bo modd byddaf hefyd yn tynnu ar brofiad rhyngwladol.

Un o'r themâu allweddol a gododd yn ystod y gwaith craffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol o dystiolaeth awdurdodau lleol oedd y pwysau a deimlir o safbwynt adnoddau yn y maes polisi hwn. Byddaf yn cydweithio'n agos gyda gweithwyr yn yr awdurdodau lleol a chynghorau cymuned i sicrhau bod y baich sydd arnyn nhw yn cael ei leihau gan obeithio y byddant yn bartneriaid wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon.

Un agwedd allweddol o ran datblygu'r ddeddfwriaeth fydd lleihau costau gorfodi ac apelio. O ran amcangyfrifon a wnaed esoes ar gyfer costau tribiwnlys materion sydd eisoes dan rywfaint o reolaeth, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Tai (Cymru) (paragraff 7.381) yn amcangyfrif y bydd y costau tribiwnlys mewn perthynas ag ailbrisiadau ar gyfartaledd yn costio tua £170 yr achos. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Hylendid Bwyd (Cymru), yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn amcangyfrif bod apêl ar gyfartaledd yn cymryd 3 awr i'w gyfrifo ar gyfradd o £40 yr awr, sy'n gyfanswm o £120. **Rwy'n credu y gellir lleihau nifer yr anghydfodau drwy ychwanegu at y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a chael** deddfwriaeth glir, syml a chymesur.

5. Byddaf yn ymgynghori yn eang yn ystod datblygiad y Bil er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd canlyniadau anfwriadol yn dilyn (er enghraifft, ar sefydliadau nad ydynt yn cael eu heffeithio gymaint yn uniongyrchol, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

Mae potensial hefyd y gallai rhoi'r Bil hwn ar waith godi proffil rhestr gyfredol Llywodraeth Cymru ynghyd â disgwyliadau. O ganlyniad, gall fod mwy o alw i ychwanegu enwau at y rhestr.

Wrth ddatblygu'r Bil, ceisir lleihau tebygolrwydd apeliadau drwy gael rhestr a gaiff ei diffinio'n glir, a ddarperir ar ei chyfer gan ddeddfwriaeth syml a chymesur.